



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Hydref 2014
Rhifyn 210

Oedfaon y Sul

5 Hyd - Bore: **Gweinidog**

Gweinyddir y Cymun a bydd bwrdd Masnach Deg yn y cyntedd
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**

12 Hyd - Bore: **Alan Wyn Roberts**

Bydd Bocs Banc bwyd yn y cyntedd
Hwyr (5pm): **Y Parchg Robert Capon**

19 Hyd - **Sul Diolchgarwch**

Bore: **Oedfa'r Plant** (10am)
Hwyr: **Gweinidog**.

Apelir am roddion gan y plant a'r oedolion at y Bwrdd Diolchgarwch - tuniau bwyd, siocled, ffrwythau, blodau, bisgedi etc. Rhennir y rhoddion ymhlith aelodau bregus yr eglwys.

26 Hyd - Bore: **Y Parchg Trefor Jones**

Hwyr: **Dafydd Iwan**

2 Tach - Bore: **Gweinidog**. Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**



Digwyddiadau Mis Hydref

Nos Lun 6 Hyd (7.00pm) - **Swper Cynhaeaf Y Gymdeithas Lenyddol a Chymdeithas Chwiorydd Seilo**. Gŵr gwadd - Mr Arfon Gwilym. Sylwer bod y cyfarfod yn dechrau am 7pm

Dydd Mercher 8 Hyd - **Y Gymdeithasfa yn y Gogledd yn Wrecsam**

Nos Iau 9 Hyd (7.30—8.30pm) - **Ymuno mewn gweddi yn Seilo**. Cyfle i oleuo canwyll a gweddio'n dawel dros sefyllfa cymdeithas a byd.

Dydd Mercher 15 Hyd (10—4) **Estyn Llaw. Seminar Un Dydd 'Sgiliau'r Anogwr Adfer'**. Cyfle i'r eglwys ddysgu sut y gall 'estyn llaw' yn effeithiol i bobl sy'n byw dan ddibyniaeth. Yr arweinydd fydd **Carol Hardy**. Pris £25 (seminar) £6 (lluniaeth). Mwy o fanylion gan y Gweinidog.

Pnawn Mercher 15 Hyd (4.30) **Dosbarth Derbyn**. Cyfarfod byr i drefnu amser cyfleus

Nos Fercher 15 Hyd (7pm) - **Pwyllgor Gwaith Chwiorydd Seilo**

Dydd Mawrth 21 Hydref (3 a 6.30pm) - **Henaduriaeth Arfon** yng Nghapel Coch, Llanberis
Bydd oedfa'r hwyr yn oedfa gyhoeddus

Nos Iau 23 Hydref (7pm) - **'Gwn Glân a Beibl Budr.'**

Portread Emlyn Richards a Harri Parri o Dr John Williams, Brynsiencyn a'r Rhyfel Mawr.
Mynediad am ddim ond derbynnir rhoddion tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Nos Lun 3 Tach (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol**. Recordio rhaglen 'Galwad Cynnar'

Seiat bob dydd Mercher am 10am (y cyfarfod cyntaf 29 Hydref)

Y Gell Weddi bob dydd Iau am 10.30am / **Taro Mewn yn Salem** bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11 am

Ffair Nadolig Seilo

Pnawn dydd Iau 13 Tachwedd (1 - 5pm)

Am Eiliad

Dyma ni bellach yn nhyrnor yr Hydref, a'r Diolchgarwch a'r Nadolig ar y gorwel. Daw pob mis Medi â'i sialens ei hun a chyfle newydd i anturio 'mlaen i'r dyfodol yng nghwmni'n gilydd fel ffrindiau a chydaelodau yn Seilo. Eleni, ysywaeth, rhaid fydd mynd ymlaen heb **Harry Jones** ac **Alwyn Evans**. Pwy ohonom fyddai wedi dychmygu ar ddechrau'r haf y byddem erbyn diwedd Awst wedi'n hamddifadu o gwmmni dau flaenor a fu mor weithgar yn Seilo ar hyd y blynyddoedd.

Bu'r ddau, Harry ac Alwyn, yn ffrind cywir ac yn gefn i weinidog. Cysegrodd y ddau eu bywyd i'r gwaith yn Seilo gan lafurio'n ddiarbed i hyrwyddo gwaith y Deyrnas. Dau gymwynaswr mawr a ddewisodd weithio'n dawel a diwyd yn y cefndir.

O blith blaenoriaid Seilo Harry oedd yr unig un oedd yn nabod holl aelodau'r eglwys – hyd yn oed yn y cyfnod pan oedd yr aelodaeth yn llawer mwy na'r hyn yw hi heddiw. Ef fyddai'n trefnu rhestrau'r aelodau - a'r cyfan bob amser mor drefnus. Roedd yn berffeithydd wrth reddf a rhoddai gant y cant o'i sylw a'i egni i bob gorchwyl. Bu'n ffyddlon i oedfa a seiat, i gyfarfod gweddi a chymdeithas lenyddol. Bu hefyd yn gefnogol iawn i weithgareddau Cymdeithas y Gronyn Gwenith. Bu'n ymweld yn gyson â'r cleifion a'r trallodus. Bu hefyd yn eithriadol o ffyddlon i gyfarfodydd yr Henaduriaeth. Rwy'n siwr ei fod o wedi gwisgo sawl gwadn esgid yn cerdded yn ôl ac ymlaen o Bod Hyfryd i Seilo yng nghwrs y blynyddoedd. Gwaith y Deyrnas ddeuai'n gynta bob tro - ac os byddai amser dros ben, yna byddai'n ymroi i fwynhau ei ddi-ddordebau.

Pan godwyd Harry yn flaenor dros hanner cant o flynyddoedd yn ôl yn Eglwys y Cysegr Bethel ac yna'n ddiweddarach yn Seilo, addawodd gyd-weithio'n deyrngar â'i weinidog ac â'i gyd-flaenoriaid i hyrwyddo gwaith yr Eglwys a'i chenhadaeth yn y byd. Os cadwodd rhywun yr addewid hwn, Harry oedd hwnnw.

Felly Alwyn hefyd. Gŵr yr 'ail filltir' a chymwynaswr wrth reddf. Bu yntau'n ffyddlon i oedfa ac yn ymwelydd cyson â'r cleifion. Roedd yn ŵr dawnus - ac heb os nac onibai profodd Seilo y gorau o'r doniau hynny. Treuliai oriau'n wythnosol yn y Theatr yn sicrhau bod cyflwr y goleuadau llwyfan a'r system sain yn berffaith ar gyfer y cwmnïau a'r cymdeithasau a fyddai'n dod yno. Bu'n hynod o gefnogol i gynyrchiadau niferus Cymdeithas y Gronyn Gwenith ac Annimeth, a byddai ar gael bob amser ar gyfer perfformiadau'r plant, boed yn y Theatr neu yn y capel. Roedd y capel fel ail gartra iddo ac yntau'n gyfarwydd â phob twll a chornel o'r adeilad. Bu'n ddiwyd i'r diwedd, - os oedd unrhyw dasg angen ei chyflawni yn y theatr, galw Alwyn fydda pawb. A'i ateb yn ddiethriad fyddai 'Ddoi yna rwan'. Nid gwneud o ddyletswydd fyddai ond o gariad angerddol - a dyna pam roedd cerdded yr ail a'r drydedd filltir yn weithred mor naturiol iddo.

Dau ŵr bonheddig addfwyn eu natur. Dau ffrind a fu'n cyd-gerdded y daith o'r aelwyd i'r capel ar hyd eu hoes. Rhyfedd meddwl eu bod erbyn hyn yn gorwedd y drws nesa i'w gilydd ym mynwent Llanbeblig. Diolch amdanynt a heddwch i'w llwch.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Helen, Elfed, Geraint a'u teuluoedd, ac â Mair a'r teulu yn eu colled. Dymunwn Dduw yn gwmmni cyson ac yn gysur iddynt yng ngwewyr eu hiraeth.

Gwenda Richards

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Dr Gareth Parry-Jones**, Bryn Eglwys, Caeathro, wedi iddo golli ei fam yn ddiweddar a hefyd â **Mrs Lis Jones**, Gwêl Fenai, hithau hefyd wedi colli ei mam. Cydymdeimlwn hefyd â **Miss Dorothy Williams**, Llys Beuno, Ffordd Hampton, wedi iddi hithau golli ei mham.

Rydym yn meddwl am y teuluoedd yn eu trallod ac yn dymuno Duw yn nerth ac yn

gynhaliath iddynt yn eu hiraeth am anwyliaid.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau da am wellhâd buan at bawb a fu'n wael yn ystod wythnosau'r haf. Treuliodd **Mrs Ann Williams**, Vron Hyfryd, Ffordd Cwstenin, **Mrs. E. Salisbury**, Haddef, Ffordd Menai a **Mr Don Evans**, Cartref, Cae Berllan, gyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd. Bu **Miss Gwyneth Owen**, Rhiw, Lôn Ddewi, a **Mrs Jennie Hewitt**, 8 Ala Las, yn Ysbyty Gwynedd cyn symud i Ysbyty Eryri. Treuliodd **Mrs Catherine Jones**, Tegfan, Ffordd Cae Garw gyfnod yn Ysbyty Gwynedd fel y gwnaeth **Mrs Mair Jones**, Hendy, **Mrs Dilys Hughes**, Llys Gwyn a **Mrs Edwina Morgan**, Llys Caron, Lôn Ddewi. Mae **Mrs Meirwen Barton**, Cae Gwyn, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Llwyddiant yn Llanelli

Llongyfarchiadau calonnog i **Meinir Wyn Roberts**, Trem y Foel, Llys Meirion, ar ei llwyddiant yn ennill Gwobr Goffa Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Fro. Rydym fel eglwys yn ymfalchïo yn ei llwyddiant ac yn dymuno'n dda iddi yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain. Ardderchog Meinir!

Gemau'r Gymanwlad

Rydym yn ymfalchio bod merch o Gaernarfon sy'n aelod yn Seilo wedi cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad a gynhaliwyd yn ninas Glasgow fis Gorffennaf eleni. Roedd **Mari Fflur Davies**, Arosfa, 22 Cae Gwyn, yn aelod o'r tîm nofio a fu'n llwyddiannus iawn yn y gemau. Llongyfarchiadau mawr Mari a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchion

Llongyfarchiadau i holl ieuenctid Seilo ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A a TGAU. Dymunwn yn dda iddynt mewn ysgol a choleg.

Dathlu Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau twymgalon i **Mrs Eifiona Thomas**, Bryn Derw, Llanfaglan ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar.

Dymuna Eifiona Thomas ddiolch i bawb yn Seilo am y caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd arbennig.

Bedydd

Yn dilyn yr oedfa yn Seilo fore Sul, 7 Medi, bedyddiwyd **Erin Wyn**, merch fach Sion Eilian Hughes a Ceri Wyn Jones, Coetmor, 24 Ffordd Segontiw. Mae Erin yn orwyres i'r diweddar W.L.Jones. Llongyfarchwn y teulu gan ddymuno bendith Duw ar eu haelwyd.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Hydref: **Alwena Lewis** (5); **Edwina Morgan** (12); **Eurwen Williams** (19); **Gwenno Williams** (26).

Ffair Nadolig Seilo

Dim ond chwe wythnos gwta tan y Ffair! **Dydd Iau 13 Tachwedd 1-5pm**. Cofiwch am y stondina amrywiol: Cacennau a Chynnyrch Cartra / Planhigion a Llysiau / Nwyddau Bron yn Newydd / Anrhegion a Chardiau / Tegannau Plant a 'Lucky Dip'(50c). Gwerthfawrogi nwyddau i'r stondinau. Bydd elw'r ffair yn mynd tuag at Gymdeithas Alzheimer a Seilo.

Bydd y pwyllgor gwaith yn cyfarfod yn yr Ystafell Gymdeithasol am 7 o'r gloch nos Fercher 15 Hydref.

Operation Christmas Child

Tua chanol mis nesa byddwn yn derbyn y bocsys sgidia arferol ar gyfer apêl flynyddol 'Operation Christmas Child'. Bydd y drefn yn newid rhyw gymaint eleni. Ni fydd angen paratoi boc ar gyfer oedran arbennig. Yn hytrach gofynnir i ni baratoi boc ar gyfer naill ai fachgen neu eneth. Bydd y bocsys yn cael eu cyflwyno i warchodwyr y plant yn y gwledydd tramor a bydd disgwyl iddynt hwy ddosrannu'r anrhegion rhwng y plant. Y gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau y bydd pob plentyn yn derbyn anrheg addas ar

gyfer ei oedran. **Mae'r taflenni priodol yng nghyntedd Seilo.**

Stondin Gacennau ar y Maes

Roedd yr haul yn gwenu ar stondin Pwyllgor Gwaith y Merched bore Gwener, 12fed o Fedi. Roedd yno amrywiaeth o gacennau a chynnyrch cartref ar werth, a llwyddwyd i godi dros £400 mewn rhyw ddwy awr a hanner.

Diolch o galon i bawb am fod mor barod i helpu, drwy baratoi cacennau ac ati, y merched fu'n brysur yn derbyn, prisio a gwerthu ar y diwrnod, y rhai fu'n nôl, codi a danfon y stondin, ac i bawb a ddaeth draw i'r maes i brynu a chefnogi. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol hael a gafwyd tuag at yr achos. Bydd yr holl elw eleni yn cael ei rannu rhwng yr achos yma yn Seilo a Chymdeithas y Clefyd Alzheimer's Cymru. Ein gweithgaredd mawr a phwysig nesaf i godi arian yw Y Ffair Nadolig, ar Dachwedd 13eg. Diolch eto i bawb.

Cymdeithas y Chwiorydd

Hedd Wyn a datblygiad yr Ysgwrn

Daeth nifer dda o aelodau hen a newydd ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor, nos Lun Medi'r 8fed. Estynnodd ein llywydd, Gwen Davidson-Norrie, groeso cynnes i bawb ac i'r wraig wadd Naomi Jones, Swyddog Addysg a Chyfathrebu Parc Cenedlaethol Eryri. A ninnau eleni yn cofio am ddechrau'r Rhyfel Byd 1^{af}, roedd testun y sgwrs yn addas iawn. Prynodd y Parc Cenedlaethol gyda chymorth y Gronfa Goffa Treftadaeth Genedlaethol, gartref Hedd Wyn a bellach mae'r Ysgwrn yn gofeb i ni fel Cymry ac yn cynrychioli pob Cymro a gollwyd yn y rhyfel. Heddiw mae tenant ifanc yn ffermio'r ffarm 163 erw a fydd yn cael ei chynnal a'i diogelu i'r dyfodol a gobeithir darfod y gwaith addasu erbyn 2017. Mae tua thair mil o ymwelwyr yn ymweld â'r Ysgwrn yn flynyddol ac fel rhan o'r cynllun bydd nifer o'r hen adeiladau'r ffarm a'r ddwy ardd yn cael eu diogelu. Cafwyd hefyd dipyn o hanes Hedd Wyn.

Diolchodd Gwen i Naomi Jones am noson arbennig ac i Margaret Jones a Beti Parry am y baned. Mis Hydref byddwn yn ymuno

â'r Gymdeithas Lenyddol i fwynhau'r Swper Cynhaeaf.

Pigion o Theatr Seilo

Bu misoedd Mai-Gorffennaf y rhai prysur yn theatr Seilo. Cyflawnwyd rhaglen sylweddol o waith adnewyddu ac uwchraddio'r system oleuo yn y theatr gan Owen & Palmer, contractwyr trydanol o Fangor. Gwnaed man welliannau eraill hefyd.

Daeth nifer o'n cwsmeriaid arferol yn ol unwaith eto - yn eu plith roedd Clwb Rotari Caernarfon (Cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn), Adran Cyfryngau Mynegiannol Coleg Menai, Gwasanaeth Cerdd Ysgolion William Mathias, Cwmni'r Fran Wen, Grwp Dawns Aelwyd Eryri, GISDA, a Gwyl Mudiad Ysgolion Meithrin. Roedd y theatr yn rhwydd lawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Yn ogystal, bu rhai unigolion a grwpiau bach yn ymarfer yn y theatr ar gyfer cyngherddau ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Braff oedd gweld y fath amrywiaeth o weithgarwch a brwdfrydedd plant a phobl ifanc wrth iddyn nhw ymarfer a pherfformio. Edrychwn ymlaen at ragor o weithgarwch yn ystod misoedd y gaeaf.

Dymuna Pwyllgor y Theatr ddiolch yn fawr i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd yn y theatr dros fisoedd yr haf . Os oes gennych chi ddiddordeb mewn stiwardio neu helpu ar yr ochr dechnegol (sain a goleuo), cysylltwch â J Idwal Williams neu Merfyn Morgan, os gwelwch yn dda.

Cerddi Ofn gan Karen Owen

Pan aed ati i gyhoeddi cyfrol yn trafod gwaith y bardd Iwan Llwyd, dyma'r bennod a gafodd ei gwrthod. Traddodwyd y bennod sy'n trafod yn onest ei alcoholiaeth, ei ofnau dyfnaf, ei ddefodau dyddiol a'i ffydd a'r effaith a gafodd y rhain i gyd ar ei gerddi gan Karen fel darlith yng Ngŵyl Golwg fis Medi eleni. Hyn o safbwynt un a fu gydag Iwan yn gyson, pan oedd ar ei orau a'i isaf, mewn sobrwydd a meddwdod, yn ystod blwyddyn olaf ei fywyd. Gellir cael copi am £1 gan y gweinidog. **Elw at elusen y Stafell Fyw, Caerdydd.**

